# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(108)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynnau 1 i 2, 4 i 10 a 12 i 15. Ni ofynnwyd cwestiwn 3. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl.

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Dechreuodd yr eitem am 14.24

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

### Cynnig Trefniadol

Cafwyd cynnig trefniadol gan Aled Roberts ar ran Kirsty Williams yn unol â Rheol Sefydlog 12.32 i ohirio'r ddadl fer.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Brentisiaethau yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 14.30

**NDM5142 Nick Ramsay (Mynwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr ymchwiliad i Brentisiaethau yng Nghymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Hydref 2012.

Er gwybodaeth: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.31

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5144 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.

2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd yn y broses o newid y GIG.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y broses o newid gwasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 30 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5144 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn mynegi pryder dwys ynghylch effaith negyddol bosibl y cynigion i ad-drefnu GIG Cymru ar gleifion.

2. Yn nodi pryderon eang ynghylch y ffordd anghyson y mae byrddau iechyd lleol yn cynnwys y cyhoedd o ran newid y GIG.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'i harweiniad ar gynnwys y cyhoedd yn y newidiadau i wasanaethau'r GIG i sicrhau na ellir anwybyddu barn y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyfodol gwasanaethau'r GIG.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu ateb unrhyw alw ychwanegol a allai godi yn sgîl ad-drefnu GIG Cymru cyn y caiff unrhyw newidiadau eu gwneud.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 26 | 50 |

**Gwrthodwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**6. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.32

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5146 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn dathlu cyfraniad enfawr y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol i economi a diwylliant Cymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau llwyddiant parhaus y sectorau hyn drwy:

a) adolygu gweithrediad adroddiad Hargreaves, 'Calon Cymru Ddigidol', i sicrhau bod ei pholisïau'n berthnasol a chyfoes, yn benodol o ran datblygu system breindaliadau hawliau perfformio i Gymru; a

b) sicrhau bod Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu ei strategaeth ar ffurfiau celf yn ystod 2013 ac yn rhoi sylw llawn i'r angen i gynyddu cyfranogaeth yn y celfyddydau, annog pobl ifanc i ymgysylltu â chreadigrwydd, hyrwyddo rhagoriaeth artistig yn Gymraeg a'r Saesneg a gosod Cymru ar lwyfan y byd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 33 | 0 | 17 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.24

**7. Dadl Fer**

**NDM5145 Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Arbennig, Unigryw ac mewn Argyfwng

Y bygythiadau i ddiwydiant Cig Oen Cymru a'r angen i weithredu.

Cafodd y Ddadl Fer ei gohirio yn gynharach yn nhrafodion y dydd.

## Crynodeb o Bleidleisiau

Daeth y cyfarfod i ben am 17:24

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 29 Ionawr 2013